

CERRIG COFFA - PROSES YMGEISIO AR-LEIN

Dyma Ffurflen Gais ar lein ar gyfer cerrig coffa sydd wedi ei chreu i gynorthwyo'r seiri meini hynny sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd drwy leihau'r angen i bostio a'r angen i deithio i swyddfa'r fynwent i brosesu ffurflen gais. Mae'r ffurflen gais ar-lein yn cynnwys dwy ran:-

- Ffurflen Gais ar gyfer Carreg Goffa
- Gwybodaeth Ynghylch Cerrig Coffa

NODER OS GWELWCH YN DDA EI FOD ER EICH PENNAF LES I FFONIO SWYDDFA'R FYNWENT I GADARNHAU PWY SYDD YN BERCHEN AR Y BEDD CYN MYND ATI I GWBLHAU UNRHYW WAITH COFFA.

Dyma'r broses berthnasol:-

1. **Ffurflen Gais ar gyfer y Garreg Goffa**

Bydd angen i chi lawr lwytho ac argraffu'r ffurflen a'i llenwi fel a ganlyn:-

Mynwent - Enw'r fynwent lle y bydd angen cwblhau'r gwaith/gosod y garreg goffa.

Adran – Llythyren yr adran gladdu yn y fynwent.

Rhif - Rhif y bedd yn adran gladdu'r fynwent.

Enw a chyfeiriad llawn y perchennog/ymgeisydd - Rhaid darparu enwau llawn neu enwau os oes mwy nag un perchennog ar gyfer carreg goffa newydd, arysgrif ychwanegol neu unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, os yw carreg goffa yn cael ei hailosod, gall unrhyw un ganiatáu hyn os nad oes gan y bedd perchennog.

Llofnod – Llofnod(ion) perchennog/perchnogion y bedd neu'r ymgeisydd.

(A fydddech cystal â defnyddio taflen “Beddau - Perchnogion Ychwanegol” os oes mwy nag un yn berchen ar fedd)

Dyddiad – Y dyddiad y llofnodir y ffurflen.

Cwmni Cerrig Coffa – Enw'r cwmni cerrig coffa sydd yn cwblhau'r gwaith.

Cyfeiriad – Cyfeiriad y cwmni/cangen sydd yn cwblhau'r gwaith neu'n llenwi'r ffurflen.

Carreg Goffa Newydd / Arysgrif Ychwanegol / Ailosodiad - Ticiwch y blwch i ddangos y math o waith coffa fydd yn cael ei gwblhau.

Llofnod ar ran y cwmni – Llofnod y person sy'n cwblhau'r ffurflen gais.

Arysgrif – Yr union eiriau fydd yn cael eu gosod ar y garreg goffa.

Braslun – Llun o holl elfennau'r garreg goffa arfaethedig fydd yn cael ei gosod. Noder nad oes bellach angen cynnwys dimensiynau'r holl hoelbrennau, angor ac ati.

Carreg Fedd, Gwaelod y Garreg Fedd, Sylfaen, Llechen Gynnal – Rhaid darparu dimensiynau HOLL elfennau'r garreg goffa.

2. Pan fydd y ffurflen wedi cael ei chwblhau, mae angen i chi ei sganio i'ch cyfrifiadur. Rhaid dychwelyd y ffurflen gais “**wreiddiol**” i swyddfa'r fynwent er mwyn ei chymeradwyo. Pan fydd y ffurflen wedi cael ei gwirio a'i chymeradwyo, bydd y Cofrestrydd yn eich ffonio er mwyn cael tâl (os oes angen) a gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio Cerdyn Debyd neu Gredyd. Wedi hynny fe gewch wybod a gafodd ei gymeradwyo drwy e-bost fydd hefyd yn cynnwys derbynneb a dyddiad gosod s yw hynny'n gymwys.

3. **Caniatâd i Osod** - Am nad oes ffurflen binc (caniatâd i osod), bydd angen i chi e-bostio'r ffurflen sydd wedi ei sganio i'r fynwent gan roi rhybudd “**YMLAEN LLAW**” o'r dyddiad yr ydych yn bwriadu cwblhau'r gwaith coffa. Dyma'r dyddiad fydd yn cael ei gofnodi fel y dyddiad cychwyn ar gyfer yr amser sydd ei angen cyn mynd ati i archwilio'r garreg goffa. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu swyddfa'r fynwent os bydd y dyddiad gosod yn newid.

Noder os gwelwch yn dda na chaniateir i'r gwaith coffa wyro mewn unrhyw ffordd o'r ffurflen gais.

4. **Gwybodaeth Ynghylch Cerrig Coffa**

Bydd angen i chi lawr lwytho ac argraffu'r daflen 'Gwybodaeth Ynghylch Cerrig Coffa' a'i rhoi i'ch cleient. Fodd bynnag, mewn ymdrech i arbed costau argraffu, os oes gan eich cleient fynediad i'r rhynggrwyd, fe allech gynghori eich cleient i ymweld â gwefan mynwentydd y Cyngor a darllen y wybodaeth ynglŷn â Cherrig Coffa.